**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 17 Rhagfyr 2020 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| R Francis-Davies | L S Gibbard | D H Hopkins |
| E J King | A S Lewis | C E Lloyd |
| J A Raynor | M Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): A Pugh

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A H Stevens

---

### 34. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 42 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a dywedodd ei bod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

2) Datganodd y Cynghorywyr R Francis-Davies a R C Stewart gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 44 "Parhau â Rhanbarth Gwella Busnes (BIB) Canol Dinas Abertawe" a gadawodd y cyfarfod cyn y drafodaeth.

### 35. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2020.

## 36. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### 1) Pandemig COVID-19

Nododd Arweinydd y cyngor fod y gyfradd heintio yng Nghymru ac Abertawe’n eithriadol o uchel. Roedd cyfraddau derbyn wedi cynyddu mewn ysbytai. Anogodd bawb i osgoi cymysgu ag eraill lle bo’n bosib ac aros yn ddiogel.

## 37. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 38. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 39. Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 1 2020/21.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn amlinellu'r Perfformiad Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 2020-2021.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi ac adolygu'r canlyniadau perfformiad i helpu i gyfeirio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywirol i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

## 40. Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 2il 2020/21.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth adroddiad a oedd yn manylu ar fonitro cyllidebau refeniw a chyfalaf 2020/2021 yn ariannol, gan gynnwys cyflwyno arbedion cyllidebol.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau a nodwyd yn yr adroddiad a'r camau gweithredu sydd ar y gweill er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

2) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau a nodir ym mharagraff 2.7 yr adroddiad.

3) Bydd y Cabinet yn parhau i bennu lefel o orwariant a ganiateir, mewn amgylchiadau eithafol, yn ystod y flwyddyn o hyd at £10m, i'w ariannu'n llawn o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, fel y'u cymeradwywyd yng nghyfarfod y cyngor ar 4 Tachwedd 2020, i sicrhau bod y gyllideb gyffredinol yn parhau i fod yn gytbwys am y flwyddyn.

4) Ni all unrhyw swyddog ystyried unrhyw ymrwymiadau gwario pellach a dylai, lle bo'n bosib, ohirio ac oedi gwariant i gynnwys a lleihau'r gorwariant tebygol a ragwelwyd erbyn diwedd y flwyddyn i'r graddau y mae hynny'n ymarferol,

wrth ddarparu blaenoriaethau cytunedig y cyngor a amlinellir yn y gyllideb a gymeradwywyd.

## 41. Y diweddaraf am gyflwyno'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer YGG Tan-y-lan ac YGG Tirdeunaw

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn ystyried yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer cynyddu nifer y disgyblion yn YGG Tan-y-lan a YGG Tirdeunaw a gofynnodd am gymeradwyaeth i ddiwygio'r dyddiad rhoi ar waith, fel sy'n ofynnol gan y Côd Trefniadaeth Ysgolion.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer adeiladau newydd YGG Tan-y-lan ac YGG Tirdeunaw.

2) Cymeradwyo dyddiad gweithredu diwygiedig i gynyddu nifer y disgyblion yn YGG Tan-y-lan ac YGG Tirdeunaw, rhwng 1 Ionawr 2021 a 22 Chwefror 2022.

**Y Cynghorydd D H Hopkins oedd yn llywyddu**

## 42. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd y Clâs | Steven Avo<br>Y Cyng. Gloria Tanner |
| 2) | Ysgol Gynradd Gorseinon | John Williams |
| 3) | Ysgol Gynradd Pontarddulais | Chris Rees |
| 4) | Ysgol Gyfun Gellifedw | Alexandra Lewis<br>Mark Lewis |

## 43. Amrywiad ar Gytundeb Cyfreithiol i Wella Ysgolion drwy Weithio Rhanbarthol (ERW).

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn ystyried Amrywio'r Cytundeb Cyfreithiol i alluogi darparu gwasanaethau dros dro i Gyngor Castell-nedd Port Talbot (CNPT) i ddatgan bod gweddill yr awdurdodau’n tynnu'n ôl ac er mwyn diddymu ERW.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cytuno ar y newidiadau arfaethedig i Gytundeb Cyfreithiol ERW i hwyluso darpariaeth gwasanaethau y cytunwyd arnynt i ysgolion Castell-nedd Port Talbot yn ystod 2020/21 (fel y nodir yn y Weithred Amrywio drafft - Atodiad 1 yr adroddiad).

2) Cytuno ar y newidiadau arfaethedig i Gytundeb Cyfreithiol ERW er mwyn:

   (i) Hwyluso diddymu/terfynu Consortiwm ERW.
   (ii) Mynd i'r afael â rhwymedigaethau/indemniadau dilynol yr holl awdurdodau presennol (a blaenorol).
   (iii) Hwyluso lleihau'r cyfnod hysbysiad o dynnu'n ôl i 3 mis (fel y nodir yn y Weithred Amrywio drafft - Atodiad 1 yr adroddiad).

3) Dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Addysg Dros Dro i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cytundeb Cyfreithiol (mewn ymgynghoriad â phartneriaid eraill ERW) a dechrau ymwneud ag unrhyw ddogfennaeth sy'n angenrheidiol i roi unrhyw un o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn ar waith ac i ddiogelu buddiannau'r cyngor.

## 44. Parhau â Rhanbarth Gwella Busnes (BID) Canol Dinas Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn ceisio cadarnhad ynghylch a oedd y cyngor am barhau i gefnogi Cynllun Rhanbarth Gwella Busnes (BID) Canol Dinas Abertawe ac i nodi'r goblygiadau i'r cyngor.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cefnogi'r broses pleidleisio dros adnewyddu'r Rhanbarth Gwella Busnes (BID) a gwaith y BID os caiff pedwerydd tymor ei sicrhau a'i gefnogi.

2) Mae'r Cyfarwyddwr Lleoedd yn goruchwylio ffurflenni pleidleisio'r BID ar ran yr awdurdod.

3) Rhoi'r awdurdod i'r Prif Swyddog Cyfreithiol ymrwymo i Gytundebau Lefel Gwasanaeth rhwng y BID a'r cyngor.

4) Rhoi'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd aildrafod prosiectau'r BID er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r cyngor ac effaith gadarnhaol ar ganol y ddinas.

## 45. Dyraniad Cyfalaf Ychwanegol i Asedau Isadeiledd Priffyrdd 2020-21

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio cadarnhau'r Rhaglen Ychwanegol ar gyfer Gwaith Cyfalaf ar gyfer asedau isadeiledd priffyrdd ac i gydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol i glustnodi ac awdurdodi cynlluniau.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r dyraniadau dangosol arfaethedig a'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

2) Dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gwasanaeth Priffyrdd a Chludiant ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd i flaenoriaethu, cwblhau a dyrannu'r arian i'r cynlluniau priodol yn unol â'r ymagwedd flaenoriaethu a nodwyd yn yr adroddiad.

## 46. Gwaith Gwella Man Cyhoeddus Wind Street: FPR7

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn darparu diweddariad ac yn gofyn am awdurdodiad cyllidebol i fynd ati i neilltuo ac awdurdodi prosiect i'r Rhaglen Gyfalaf gan gydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo uchafswm ffigur cyllidebol o hyd at £2,880,000 ar gyfer adeiladu, ffioedd a chynlluniau wrth gefn ac y dylid cynnwys y ffigur yn y Rhaglen Gyfalaf.

## 47. Cronfeydd Economi Gylchol Adferiad Gwyrdd Llywodraeth Cymru 2020-21 - Ceisiadau am gyllid ar gyfer pedwar Prosiect Atgyweirio/Ailddefnyddio

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i wneud cais am arian grant cyfalaf a refeniw o ddwy o Gronfeydd yr Economi Gylchol Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 ar gyfer pedwar prosiect atgyweirio/ailddefnyddio.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo cyflwyno ceisiadau am arian i Gronfa’r Economi Gylchol Llywodraeth Cymru ar gyfer Blwyddyn ariannol 2020-21 i gefnogi:
   i) Sefydlu Caffi Atgyweirio a Llyfrgell Pethau yn Siop Ailddefnyddio'r Cyngor.
   ii) Sefydlu Caffi Atgyweirio Symudol.
   iii) Sefydlu rhwydwaith atgyweirio beiciau mewn partneriaeth â Chanolfan yr Amgylchedd.
   iv) Gwelliannau i atgyweirio ac ailddefnyddio drwy bartneriaeth â'r sector preifat a'r 3ydd Sector.

2) Ar ôl cymeradwyo unrhyw un o'r grantiau, ychwanegu'r cynlluniau at raglen y cyngor yn unol â FPR7 a rhoi'r awdurdod dirprwyedig i Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd a'r Cyfarwyddwr Lleoedd i neilltuo’r gwariant cyfalaf perthnasol.

**Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu**

## 48. Gwahardd y cyhoedd

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 49. Bwriad i brynu eiddo yng nghanol y ddinas i fuddsoddi ynddo

Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau a Buddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad ar y cyd a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer telerau diweddaredig caffael eiddo mewn perthynas â'r adroddiad gwreiddiol a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Cabinet ar 20 Mehefin 2019.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

## 50. Bwriad i gaffael eiddo prydles yn nghanol y ddinas a'i ailddatblygu - RhGA 7.

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan Aelodau'r Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau a Buddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf) er mwyn neilltuo ac awdurdodi ychwanegu cynlluniau newydd at y Rhaglen Gyfalaf.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at yr wybodaeth ychwanegol a ddosbarthwyd.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.23 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 17 Rhagfyr 2020 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 22 Rhagfyr 2020 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 23 Rhagfyr 2020 |